

# CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA MARGAM

(Acting with Plenary Powers)

**Members Present:**

**Dydd Llun, 11 Tachwedd 2024**

**Representing Neath  
Port Talbot County  
Borough Council:**

**Councillors** E.V.Latham, W.Carpenter,  
A.Dacey, R.G.Jones a/ac S.Jones

**Officers in  
Attendance:**

C.Phillips, C.Langdon, H.Jones a/ac J Davies

## 1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2024, fel cofnod cywir.

## 3. **DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH CYFALAF**

Rhoddodd swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Waith Cyfalaf, fel a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

### **Penderfynwyd ar y canlynol:**

- Adnewyddu'r toiledau presennol yn llwyr, gan osod paneli wal dwrglos, lloriau resin a gwella inswleiddio'r nenfwd.
- Atgyweiriadau concrit yn unol â'r amcangyfrif a dderbyniwyd – rhwng £125,000 a £150,000 ac eithrio mynediad.
- Ailaddurno paent gwaith maen, yr amcangyfrif mewnol yw £80,000 ac eithrio mynediad.
- Ailddatblygu'r iard fewnol, yr ardd goffa a gosod canopi wrth yr allanfa. Esboniodd swyddogion y byddant yn cyflwyno cais cynllunio am ganiatâd adeilad rhestredig ac os caiff ei gymeradwyo, byddai ganddynt bum mlynedd i gwblhau'r prosiect.

O ran arwyneb y briffordd, gofynnodd yr aelodau am ragor o wybodaeth ac roeddent am ystyried cyfreithlondeb pwnt mynediad y gyffordd wrth gyrraedd yr amlogfa, yn ogystal ag ystyried yr atebolrwydd rhwng y fynwent a CBSCNPT. Cytunodd swyddogion yr ymdrinnir ag arwyneb y briffordd pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

#### 4. **EITEMAU BRYD**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

### **CADEIRYDD**